

Taflen Ffeithiau 4

Cael Hyd i'r Arian



Sut mae cael cyllid?



- Cyllid gan sefydliadau eraill
- Creu eich cyllid eich hun

Ystyriwch:

- Does dim rhaid i gerdded gostio dim byd!
- Bydd gweithgareddau fforddiadwy'n cynnwys pawb, heb eithrio neb
- Dylai grwpiau allu talu eu costau rhedeg o'u hincwm aelodaeth – (byw o fewn eich modd)
- Mae arian yn y banc yn esgor ar gyfrifoldeb ac atebolrwydd
- Codi arian ar gyfer prosiectau penodol na all y grŵp eu cyllido, ond a fydd o fudd i'r aelodau presennol ac i aelodau newydd posibl



Does dim rhaid i gerdded fod yn gostus

Os yw eich grŵp cerdded yn grŵp bychan, anffurfiol sy'n cyfarfod i fwynhau cerdded gyda'i gilydd, mae'n bur debyg nad ydych angen unrhyw arian.

Efallai eich bod wedi penderfynu casglu 50c yr wythnos gan bawb tuag at luniaeth ar ddiwedd y daith gerdded neu i dalu am gost llungopio eich rhaglen o deithiau cerdded ar gyfer yr ychydig fisoedd nesaf.

Os yw hyn yn disgrifio gweithgarwch ariannol eich grŵp – da iawn! Hir y parhaed!

Ar gyfer beth fydddech chi angen arian?

Mae'r costau'n debygol o ddod i'r amlwg wrth i'ch grŵp dyfu neu fod â chynlluniau i dyfu. Felly pa fath o gostau fydd raid i chi ofalu amdanynt efallai?



Dulliau o gasglu arian ar gyfer eich grŵp:



Costau gweinyddu

- Llungopïo – ffurflenni, posterï, taflenni, cylchlythyrau, cardiau aelodaeth
- Costau ffonio
- Mapiau

Costau datblygu

Marchnata

- Taflenni a phosterï
- Digwyddiadau

Offer

- Citiau Cymorth Cyntaf
- Bagiau Cit Arweinwyr Cerdded
- Bandiau / dillad llachar / adlewyrchu
- Poteli dŵr
- Dillad wedi'u brandio

Hyfforddiant

- Llogi lleoliad
- Llundiaeth
- Costau cwrs hyfforddi arweinwyr cerdded

Costau rhedeg ychwanegol

- Yswiriant i arweinwyr cerdded
- Cymhelliant
- Treuliau gwirfoddolwyr

- Hunangynhaliaeth gyda chostau rhedeg sylfaenol grŵp bychan yn cael eu talu gan y cerddwyr.
- Codi arian yn y grŵp cerdded neu'n ehangach yn y gymuned drwy gyfrwng nosweithiau cwis, rafflau neu arwerthiannau cist car.
- Cais am gyllid i sefydliad lleol neu genedlaethol. Mae hon yn broses fwy ffurfiol sydd angen cynlluniau manwl ar gyfer sut fydd eich grŵp yn datblygu neu'n darparu ychwanegolrwydd gyda'r cyllid rydych yn gwneud cais amdano.
 - Cael hyd i'r ffynhonnell briodol o gyllid ar gyfer amcanion eich grŵp a / neu ffynhonnell y gallwch chi gyfrannu at ei thargedau / agenda.
 - Datblygu eich cynllun / cais gyda'ch gwirfoddolwyr a'ch cyfranogwyr fel eu bod yn rhan o'r broses ac o ddatblygiad y grŵp cerdded.
 - Cadw pethau'n syml ac yn realistig – sicrhau eich bod yn gallu cyflwyno'r hyn rydych yn ei ddweud ar bapur!
 - Gyda chyllid ceir cyfrifoldeb ac atebolrwydd. Yn aml, bydd yn ofynnol i chi gadw cofnodion, darparu adroddiadau a bod yn atebol am bob un ceiniog.



Nodiadau

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

- Cyngor Chwaraeon Cymru
- Arian I Bawb
- Cronfa'r Loteri Fawr
- Gwasanaeth Gwirfoddol Lleol

www.cyngor-chwaraeon-cymru.org.uk

www.awardsforall.org.uk/cymru

www.biglotteryfund.org.uk/welsh/wales

Chwilio am gysylltiadau lleol

